



# Polisi Perthnasoedd ac Ymddygiad Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy

| Rheoli'r Fersiwn      |                     |
|-----------------------|---------------------|
| Awdur y ddogfen       | Leila Phillips      |
| Statws statudol       | Statudol            |
| Statws y wefan        | Ar y wefan          |
| Cymeradwywyd gan      | Pwyllgor Rheoli     |
| Dyddiad cymeradwyo    | Gorffennaf 2025     |
| Cylch cymeradwyo      | Dwywaith y flwyddyn |
| Dyddiad adolygu nesaf | Gorffennaf 2027     |

| Hanes y ddogfen |         |           |                      |
|-----------------|---------|-----------|----------------------|
| Fersiwn         | Dyddiad | Adolygydd | Nodiadau'r adolygiad |
|                 |         |           |                      |
|                 |         |           |                      |

| Dogfennau cysylltiedig |
|------------------------|
|------------------------|

**Mae ein polisïau wedi'u llunio gan ddefnyddio gwerthoedd Sir Fynwy:**

**Gwaith Tîm      Bod yn Agored      Tegwch      Hyblygrwydd**

Mae ein holl bolisïau wedi'u cyd-lunio a'u llywio gan ddysgu proffesiynol, llais y disgybl, llais y rhiant/gofalwr, llais y staff ac yn destun her a chefnogaeth gan ein Pwyllgor Rheoli.

Mae'r polisi hwn yn egluro sut y dylai pobl drin eraill a beth all ddigwydd pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Rydym wedi buddsoddi mewn cefnogi'r berthynas orau bosibl rhwng:

- Rhiant a phlentyn
- Gofalwr a phlentyn
- Plentyn a phlentyn
- Plentyn a staff
- Rhiant a staff
- Gofalwr a staff
- Staff
- Staff ac asiantaethau allanol

## **Ein hamcanion a'n hethos.**

Ein nod yw paratoi ein disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol neu i'r cam nesaf mewn bywyd yn llwyddiannus. Er mwyn galluogi hyn, rydym yn darparu cwricwlwm pwrpasol iddynt yn ôl eu hanghenion.

Mae'r cwricwlwm wedi'i lywio gan drawma ac yn cyfrannu at y pedwar diben:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol, gwybodus o Gymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bydd ffocws ar ddatblygiad academaidd, galwedigaethol a phersonol yn ôl yr angen er mwyn cyflawni llwyddiant gyda safonau uchel o addysgu a dysgu a disgwyliadau uchel o ran ymddygiad.

Ein hethos yw creu amgylchedd diogel lle mae pob plentyn yn profi llwyddiant. I'r perwyl hwn mae Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy wedi ymrwymo i arferion addysgol sy'n Diogelu, Perthyn, Rheoleiddio ac Adlewyrchu.

## **Ein hamcanion ac ethos yn cael eu rhoi**

**ar waith.**

### **Amddiffyn**

- Mwy o 'awgrymiadau diogelwch' ym mhob agwedd ar y dydd, e.e., 'cyfarfod a chyfarch' wrth ddrws yr ystafell ddosbarth.
- Staff wedi'u hyfforddi mewn dulliau rhyngweithio 'PACE' (Hughes 2015): bod yn gynnes, yn medru uniaethu, yn chwareus ac yn chwilyfydig (wedi'i brofi i symud plant allan o safleoedd ymladd/ymladd/rhewi).
- Mae staff yn sicrhau bod rhyngweithio â phlant yn gymdeithasol ddiddorol ac nid yn gymdeithasol amddiffynnol er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn ymwneud yn amddiffynnol (ymladd/ffoi/rhewi).
- Ymrwymiad gwasanaeth cyfan i osgoi pob defnydd o leisiau llym, gweiddi, beirniadaeth, a chywilyddio (wedi'i brofi i fod yn niweidiol yn seicolegol ac yn niwrolegol).
- Mae staff yn 'trwsio'n rhyngweithiol' achlysuron pan fyddant eu hunain yn symud i fod yn amddiffynnol.
- Ymyriadau addysgeg sy'n helpu staff i ddod i adnabod plant yn well ar sail unigol
- e.e. "Byddwn i'n dymuno pe bai fy athro/athrawes yn gwybod" (beth sy'n bwysig iddyn nhw, pwy sy'n bwysig iddyn nhw, eu breuddwydion, eu gobeithion). Mae hyn yn allweddol i alluogi plant i deimlo'n ddigon diogel i siarad, os ydynt yn dymuno, am brofiadau bywyd poenus, sy'n ymyrryd â'u gallu i ddysgu ac ansawdd eu bywyd.
- Mae gan blant fynediad hawdd a dyddiol at o leiaf un oedolyn sydd ar gael yn emosiynol ac maent yn gwybod pryd a ble i ddod o hyd i'r oedolyn hwnnw. Os nad yw'r plentyn yn dymuno cysylltu â'r oedolyn a neilltuwyd iddo, deuir o hyd i berson arall.
- Mae staff yn addasu disgwyliadau o amgylch plant i gyd-fynd â'u galluoedd datblygiadol a'u profiad o straen trawmatig. Mae hyn yn cynnwys tynnu plant mewn ffordd garedig, heb feiriniadu, o sefyllfaoedd nad ydynt yn eu rheoli'n dda.
- Darparu system glir, gyfrinachol, a di-gywilydd o hunangyfeirio ar gyfer cymorth/amser siarad plant.
- Meithrin staff mewn ffordd fel eu bod yn teimlo'n wirioneddol werthfawr ac yn cael eu rheoleiddio'n emosiynol a thrwy wneud hynny i'w cefnogi i ryngweithio drwy gydol y ydd gydag ymgysylltiad cymdeithasol cadarnhaol yn hytrach nag amddiffynnol.

## Perthyn

- Yn ein hysgol ni, ein hymrwymiad eang i alluogi plant i weld eu hunain, eu perthnasoedd, a'r byd yn gadarnhaol, yn hytrach na thrwy lens o fygythiad, perygl, neu hunan-fai.
- Rhoi cyfleoedd perthynas dro ar ôl tro i blant (gydag oedolion sydd ar gael yn emosiynol) i wneud y newid o 'ymddiriedaeth wedi'i rhwystro' (heb deimlo'n ddiogel yn seicolegol gydag unrhyw un) i ymddiriedaeth, ac o hunangymorth i 'geisio cymorth'.

## Rheoleiddio

- Ymyriadau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i ostwng lefelau hormonau straen (e.e. o wenwynig i oddefadwy) mewn plant, gan eu galluogi i deimlo'n dawel, yn dawel ac yn ddiogel. Mae hyn i gefnogi dysgu, ansawdd bywyd ac amddiffyn rhag salwch corfforol a meddyliol a achosir gan straen, nawr ac yn ddiweddarach mewn bywyd.
- Ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n anelu at atgyweirio difrod seicolegol a achosir gan brofiadau bywyd trawmatig, trwy ryngweithiadau oedolion-plentyn sy'n rheoleiddio'n emosiynol, yn chwareus ac yn gyfoethog.
- Mae lles emosiynol a rheoleiddio staff yn cael ei drin fel blaenoriaeth, a hynny er mwyn atal gorlethu, absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen, neu'r penderfyniad i adael y proffesiwn oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â straen, trawma eilaidd a/neu'r ymdeimlad eu bod wedi eu tanbrisio, yn cael eu beio neu'n cael eu cywilyddio.
- Mannau dynodedig i staff yn unig, sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi rhyddhau niwrogemegau naturiol gwrth-straen, sy'n gymdeithasol dda (opioidau ac ocsitosin). Amseroedd wedi'u hamserlennu i staff ddefnyddio'r manau hyn.

## Myfyrio

- Dysgu proffesiynol, myfyrio a hyfforddiant wedi'i hwyluso mewn diwylliant lle mae modd gwrando'n dda da, cynnal deialog, cynnig empathi a dealltwriaeth (yn lle gofyn cyfres o gwestiynau/rhoi darlithoedd).
- Darparu sgiliau ac adnoddau i gefnogi rhieni a staff mewn sgysiau ystyrllon gyda phlant sydd eisiau siarad am eu bywydau. Mae hyn er mwyn grymuso plant i reoli eu sefyllfaoedd cartref a bywyd yn gyffredinol yn well.
- O fewn cyd-destun perthynas sefydledig ac ymddiriedus gydag aelod o staff (cynghrair waith), rhoddir y modd a'r cyfle i blant symboleiddio profiadau bywyd poenus trwy ddelweddau yn ogystal â geiriau, fel rhan allweddol o 'weithio trwy' y profiadau hyn ac ail-grynhoi cof. Mae'r dulliau'n cynnwys darparu gwahanol ddulliau mynegiant, e.e., celf/chwarae/drama/cerddoriaeth/chwarae tywod/taflenni gwaith emosiwn/cardiaid emosiwn.
- Iechyd a Llesiant ac seico-addysg fel mewnbwn ataliol, wedi'i lywio gan ymchwil gyfredol (seicoleg a niwrowyddoniaeth) ar iechyd meddwl, afiechyd meddwl (ystod lawn o gyflyrau penodol), perthnasoedd (gan gynnwys rhianta) emosiynau, cyfryngau cymdeithasol ac offer ar gyfer sut i 'wneud bywyd yn dda'. Mae cynnwys cwricwlaidd yn galluogi plant i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch sut maen nhw'n ymwneud ag eraill, sut maen nhw'n byw eu bywydau, a sut maen nhw'n trin eu hymennydd, eu cyrff a'u meddyliau.
- Datblygu a hyfforddi staff i helpu plant i symud o 'ymddwyn' yn ôl eu trawma/profiadau bywyd poenus, i fyfrio ar y profiadau hynny. Mae staff yn dysgu gwneud hyn trwy sgwrs empathig, gan fynd i'r afael â hunangyfeirio negyddol plant a helpu.
- Nid yw polisi GCD Sir Fynwy yn seiliedig ar gosb, sancsiynau ac ynysu, ond un sy'n modelu ymholi, myfyrio, datrys ac atgyweirio rhyngweithiol (e.e., sgysiau adferol).

## Gwerthoedd a disgwyliadau

Bydd pawb yn gwneud camgymeriadau weithiau. Yr ymrwymiad a wnawn gyda'n gilydd yw dysgu o'n camgymeriadau a cheisio cywiro pethau. Dylid byw ein gwerthoedd o Waith Tîm, Bod yn Agored, Tegwch a Hyblygrwydd ym mhob disgwyliad a restrir isod.

## Disgwyliadau Ymddygiad

**Mae ein disgwyliadau ymddygiad** wedi'u gwreiddio mewn parch, cyfrifoldeb a diogelwch. Mae'r disgwyliadau hyn yn cael eu cyfleu'n gadarnhaol ac yn glir i bob disgybl

1. Parch: Ymdrin ag eraill, chi'ch hun, a'r amgylchedd gyda charedigrwydd ac ystyriaeth.
2. Cyfrifoldeb: Cymryd perchnogaeth o'ch gweithredoedd a'u heffaith ar eraill.
3. Diogelwch: Gweithredu mewn ffyrdd sy'n cadw'ch hun ac eraill yn ddiogel, yn gorfforol ac yn emosiynol.

## Ffonau Symudol

Gall ffonau symudol achosi tynnu sylw sylweddol o'r ymdrech i ddysgu. Mae gennym gyfrifoldeb i gefnogi disgyblion i allu gweithio heb yr angen am eu ffonau symudol. Rydym am i ddisgyblion sgwrsio â'i gilydd a staff pan fyddant yn yr ysgol. Felly, disgwylir i bob disgybl roi eu ffonau symudol i mewn wrth fynd i mewn i'r ysgol. Os yw disgybl yn dewis peidio â rhoi eu ffôn symudol i mewn, cysylltir â'u rhiant/gofalwr i ddod i gasglu ffôn eu plentyn o'r ysgol. Bydd achosion dro ar ôl tro o beidio â rhoi ffôn symudol i mewn yn arwain at gyfarfod ffurfiol gyda rhiant/gofalwr a chytundeb rhwng y dysgwr a'r ysgol.

## Digwyddiadau Difrifol

Mae pob digwyddiad difrifol yn cael ei gofnodi ar ein proforma, gweler **Atodiad 1**.

## Gwrthfwlio

Nid yw'r ysgol yn goddef unrhyw ymddygiadau gwahaniaethol na bwlio. Ein diffiniad o fwlio yw, "Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, a ailadroddir dros amser, sy'n brifo eraill yn fwriadol naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol" fel y'i rhannir gan Lywodraeth Cymru. Jan Watkins yw arweinydd gwrthfwlio'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol mewn strategaethau ataliol ac adweithiol ynghylch bwlio ac ymddygiad gwahaniaethol.

## Hyrwyddo Ymddygiad Cadarnhaol

Rydym yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol drwy'r canlynol

1. Perthnasoedd a Chysylltiad
  - Mae meithrin perthnasoedd cryf, ymddiriedus gyda disgyblion yn ganolog i'n dull gweithredu.
  - Mae staff yn modelu ymddygiad cadarnhaol, empathi, a hunanreoleiddio.
  - Mae ymweliadau dyddiol ac arferion cyson yn creu ymdeimlad o ddiogelwch a rhagweladwyedd.

## 2. Cydnabyddiaeth a Gwobrau

- Defnyddir atgyfnerthu cadarnhaol i gydnabod a dathlu ymdrechion a chyflawniadau disgyblion.
- Defnyddir canmoliaeth lafar, tystysgrifau, a systemau gwobrwy (wedi'u teilwra'n unigol ar gyfer disgyblion) i ysgogi ac annog. Mae systemau gwobrwy yn caniatáu i ddisgyblion ennill a chasglu profiadau cadarnhaol.

## 3. Llesiant a Rheoleiddio Emosiynol

- Mae gweithgareddau lles rheolaidd, sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar, a chyfleoedd ar gyfer seibiannau symud wedi'u hymgorffori yn y diwrnod.
- Mae disgyblion yn dysgu strategaethau i reoleiddio eu hemosiynau, fel ymarferion anadlu, gweithgareddau synhwyrdd, a defnyddio manau tawelu drwy'r cwricwlwm

## 4. Integreiddio'r Cwricwlwm

- Mae fframwaith Cwricwlwm Cymru yn sail i'n haddysgu, gan hyrwyddo llythrennedd emosiynol, empathi a gwydnwch drwy Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant. Rydym yn sicrhau ein bod yn dysgu ymddygiadau cadarnhaol i ddisgyblion yn benodol a sut i reoli eu hemosiynau.

### **Bydd pob un ohonom yn:**

- parchu barn, eiddo, teimladau ein gilydd a diogelu ein gallu i weithio a dysgu.
- bod yn rhan o amgylchedd dysgu cadarnhaol a chyfrannu ato.
- bod yn gwrtais.
- mynd ati i weithio a dysgu gydag agwedd gadarnhaol a synnwyr digrifwch.
- deall bod cyfrifoldeb yn dod gyda rhyddid.
- deall ein gilydd a gweithio gyda'n gilydd i gyflawni llwyddiant a chynnydd.
- cadw pawb yn ddiogel trwy beidio â dod ag arfau nac unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio fel arf i mewn.
- cadw pawb yn ddiogel trwy beidio ag ysmegu, fepio na chymryd sylweddau niweidiol neu anghyfreithlon na defnyddio alcohol.
- ymatal rhag labelu, barnu na stereoteipio.
- cynnal amgylchedd dysgu glân a thaclus.

### **Bydd plant a phobl ifanc yn:**

- cyrraedd ar amser a bod â chymhelliant i ddysgu.
- ymfalchïo yn eu gwaith a sicrhau ei fod wedi'i storio'n ddiogel.
- bod yn ymwybodol o'u targedau ar gyfer dysgu a gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i'w cyflawni.
- gwybod pa gynnydd y maent wedi'i wneud a'r camau nesaf i'w cymryd

### **Bydd oedolion yn:**

- teg ac yn gyson.
- cydnabod a gwobrwyo pob cyflawniad.
- arddangos ymddygiad sydd yn gosod esiempl.
- sicrhau eu bod yn darparu gweithgareddau priodol, wedi'u cynllunio'n dda gyda'r swm cywir o her.
- mabwysiadu dull cydweithredol o ddysgu

### **Gall Rhieni/Gofalwyr helpu yn y ffyrdd canlynol:**

- Bod â diddordeb yn nysgu eu plentyn.
- Deall a chefnogi ein gwerthoedd a'n disgwyliadau.
- Bod yn barod i gefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dysgu.
- Bod yn ymwybodol o rôl eu plentyn o fewn y gymuned.

Mewn partneriaeth dylem alluogi plant i weld eu hunain, eu perthnasoedd, a'r byd yn gadarnhaol. Gweithiwch gyda ni drwy:

- Rhoi a derbyn newyddion da am eich plentyn.
- Yn gosod esiamp o ran bod yn agored a theg.
- Darparu rhifau cyswllt brys a chyfeiriadau e-bost cyfredol.
- Hysbysu'r ysgol am absenoldeb drwy ffonio ar y diwrnod cyntaf.
- Mynychu cyfarfodydd.
- Gwneud apwyntiadau i weld staff ynglŷn â'ch pryderon neu'ch gobeithion.

### **Pam rydym ni'n defnyddio dull sy'n seiliedig ar drawma i atgyweirio ac ailadeiladu.**

Pan fydd pobl mewn gwrthdaro, mae angen:

- Cyfle i adrodd eu stori.
- Cyfle i fynegi eu teimladau.
- Deall sut y digwyddodd y sefyllfa.
- Deall sut y gellir ei hosgoi rywbryd arall.
- Teimlo bod y lleill a oedd yn rhan o'r sefyllfa yn eu deall.
- Cydnabyddiaeth o'r niwed a achoswyd, os nad ymddiheuriad.
- Dod o hyd i ffordd i symud ymlaen.

### **Gall ymatebion sy'n cosbi:**

- Achosi dicter yn hytrach na myfyrio.
- Anaml y cânt eu hystyried yn deg.
- Nid ydynt yn atgyweirio perthnasoedd.
- Gadael i droseddwy'r deimlo'n ddrwg amdanynt eu hunain gan arwain at ymddieithrio pellach.
- Yn aml, gallant adael yr oedolion y disgwylir iddynt weithredu'n gosbol yn teimlo'n anghyfforddus ac yn rhwystredig.

Yr allwedd i ganlyniad llwyddiannus yw os yw'n cael ei gyrraedd gan y bobl sy'n rhan o'r gwrthdaro. Rydym yn gwerthfawrogi bod llawer o'n plant a'n pobl ifanc wedi profi gwrthdaro a thrawma y tu mewn ac weithiau y tu allan i fywyd ysgol. Gall y digwyddiadau hyn yn y gorffennol helpu i lunio eu hymateb i unrhyw beth anodd. Rydym yn bwriadu helpu pob person i lwyddo pan fyddant yn wynebu heriau newydd.

### **Ymateb i ymddygiadau annymunol**

#### **Oedolion**

Dyma rai o'r pethau y gallwch ddisgwyl i ni roi cynnig arnynt:

- Rhoi atgofion o'r hyn a ddisgwyliwn.
- Atal sefyllfaoedd posibl drwy ddefnyddio hiwmor, newid y gweithgaredd neu newid grwpiau / ystafelloedd ac ati.
- Cynnig lle i fyfyrrio.
- Sgwrs Adferol ar ddiwedd y wers os yw'n briodol – sgwrs anffurfiol 1-1 gan ddefnyddio cwestiynau adferol a gwrando ar atebion.
- Ffonio adref.
- Cyfarfod ar y pryd gyda chytundeb – cyfarfod anffurfiol a all gynnwys person diduedd i lunio cytundeb ymddygiad y mae pawb yn hapus ag ef.
- Cyfeirio at y rheolwr llinell – os na cheir datrysiad yna bydd yr UDA yn cefnogi'r holl

bartïon dan sylw (staff a disgyblion).

- Cofnodi pob Ymyriad ar gofnod gweithredu ar gyfer materion lefel isel a defnyddio **Atodiad 1** y Proforma Digwyddiad Difrifol ar gyfer problemau mwy difrifol.
- Monitro a gwerthuso Ymyriadau – defnyddio targedau ymddygiad i helpu disgyblion i ddysgu sut i wella ac atal problemau rhag aildigwydd drwy Broffiliau Un Dudalen a Chynlluniau Cymorth Bugeiliol.

### **Gall yr Uwch Dîm Arwain ddefnyddio strategaethau fel:**

- Sgwrs fyrfyr – i atgyfnerthu'r sgwrs a gynhaliwyd gyda'r athro/athrawes ac i gynnig clust i wrando.
- Cynhadledd fyrfyr – i helpu i ffurfio cysylltiad â'r athro/athrawes a'r disgybl ac i sicrhau'r disgybl y bydd rhywun yn gwrando arno/arni a bod modd cyflawni canlyniad cadarnhaol.
- Cyfarfod Adferol Ffurfiol gyda'r Contract a'r ymyrraeth wedi'u cofnodi – os bydd y berthynas yn chwalu ymhellach yna mae'n bwysig bod yr UDA yn clywed y ddwy ochr yn ffurfiol a bod modd dod i benderfyniad.
- Cynhadledd Adferol Ffurfiol gyda'r Contract a'r ymyrraeth wedi'u cofnodi – byddai hyn yn cynnwys rhieni, gweithwyr ieuenctid a'r holl asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig.
- Rhaglen Cymorth Bugeiliol wedi'i hysgrifennu a'i hadolygu'n rheolaidd.
- Atgyfeirio at asiantaethau allanol.
- Monitro a gwerthuso ymyriadau.
- Symud y dysgwr i weithio gydag aelod gwahanol o staff, mewn ardal wahanol neu Ganolfan wahanol am gyfnod penodol o amser, i roi cyfle i bawb fyfyrir ac atgyweirio.
- Gwaharddiad Tymor Penodol gyda chynllun ailintegreiddio.

### **Defnyddio Gwaharddiadau Tymor Penodol**

Lle byddai ymddygiad yn parhau i beri risg i ddiogelwch, gall Pennaeth Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy benderfynu bod angen Gwaharddiad Tymor Penodol.

Y pwrpas yw caniatáu adfer diogelwch trwy newid mewn ymddygiad, rheoli risg wedi'i ddiweddarau neu gynllun mwy addas ar gyfer dychwelyd i ddysgu.

Nid cosb yw'r pwrpas.

Bydd ein Gwaharddiadau Tymor Penodol yn cael eu cofnodi fel un o'r canlynol:

- Trais ymosodol yn erbyn staff
- Trais ymosodol yn erbyn dysgwr
- Ymddygiad aflonyddgar
- Bwlio
- Aflonyddu hiliol
- Aflonyddu rhywiol
- Cam-drin geiriol
- Ymddygiad bygythiol neu beryglus
- Meddu ar/defnyddio arf
- Lladrad
- Difrod i eiddo
- Camddefnyddio sylweddau
- Arall (gyda chysylltiad clir â diogelwch).



Bydd gwaharddiadau am yr amser rhesymol lleiaf. Bydd rhieni/gofalwyr yn cael gwybod ar ddiwrnod y gwaharddiad. Bydd e-bost a chopi caled o'r llythyr ffurfiol yn dilyn o fewn 24 awr waith.

Bydd dyddiad ac amser cyfarfod adferol wedi'u cynnwys yn y llythyr.

## **Arferion Cyfyngol**

Fel lleoliad sy'n cael ei lywio gan drawma, mae'r defnydd o arferion cyfyngedig yn cael ei reoli, ei fonitro'n ofalus, a'i gymhwyso dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol i amddiffyn diogelwch disgyblion ac eraill.

### **1. Diffiniad o Arferion Cyfyngedig**

Mae arferion cyfyngedig yn cyfeirio at unrhyw weithred neu ymyrraeth sy'n cyfyngu ar symudiad, rhyddid neu ddewis disgybl. Mae hyn yn cynnwys:

- Ymyrraeth gorfforol neu ataliaeth.
- Ymwahanu neu ynysu.
- Tynnu breintiau yn ôl fel math o reolaeth.

### **2. Egwyddorion Ii'w Defnyddio**

Dim ond arferion cyfyngedig a ddefnyddir:

- Fel dewis olaf pan fo risg glir ac uniongyrchol i ddiogelwch y disgybl, disgyblion eraill, neu staff.
- Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol).
- Mewn modd sy'n gymesur, yn angenrheidiol, ac yn rhesymol.
- Gyda'r parch mwyaf i urddas a hawliau'r disgybl

### **3. Ymyrraeth Gorfforol**

- Gall staff ddefnyddio ymyrraeth gorfforol i atal niwed, fel atal disgybl rhag niweidio ei hun neu eraill.
- Dim ond aelodau staff hyfforddedig sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio ymyrraeth gorfforol, yn dilyn hyfforddiant Team Teach neu hyfforddiant dad-ddwysáu a chyfyngu cyfatebol.
- Rhaid cofnodi pob ymyrraeth gorfforol yn y llyfr rhwymedig a rhifedig a'i adolygu gan uwch staff.
- Hysbysir rhieni/gofalwyr yn dilyn unrhyw ddefnydd o ymyrraeth gorfforol

### **4. Ymwahanu ac Ynysu**

- Ni chaiff disgyblion byth eu cloi mewn ystafell na'u gorfodi i'w neilltuo.
- Gellir cynnig mannau tawelu fel lle gwirfoddol i ddisgyblion hunanreoleiddio, ond ni ellir gorfodi disgyblion i mewn i fannau o'r fath.
- Rhaid goruchwyllo unrhyw dynnu disgybl yn ôl i ardal dawelach ac am y cyfnod byrraf posibl

### **5. Monitro ac Adolygu**

- Mae pob arfer cyfyngedig yn cael ei gofnodi'n ofalus, gan gynnwys y rheswm dros ei ddefnyddio, ei hyd, a'i ganlyniad.
- Mae digwyddiadau'n cael eu hadolygu gan y tîm arweinyddiaeth i sicrhau bod arferion cyfyngedig yn cael eu cymhwyso'n briodol ac fel dewis olaf.
- Mae patrymau arfer cyfyngedig yn cael eu dadansoddi i nodi cyfleoedd ar gyfer strategaethau neu anghenion hyfforddi amgen

## **Eitemau Gwaharddedig**

Er mwyn cynnal diogelwch, lles a ffocws pob disgybl, mae'r eitemau canlynol wedi'u gwahardd yn llym yn y GCD:

- Arfau neu Wrthrychau Peryglus: Unrhyw eitem a allai achosi niwed, gan gynnwys cyllyll, gwrthrychau miniog, neu atgynhyrchiadau.
- Cyffuriau, Alcohol, a Thybaco: Mae hyn yn cynnwys sylweddau anghyfreithlon, dyfeisiau anweddu, tanwyr, ac unrhyw offer cysylltiedig.
- Cyfryngau Amhriodol: Deunydd pornograffig, treisgar, neu niweidiol fel arall, gan gynnwys delweddau neu recordiadau ar ddyfeisiau electronig.
- Eitemau Anniogel Eraill: Eitemau fel tân gwyllt, chwistrellau aerosol, a phennau laser

Nid rhestr gynhwysfawr yw hon ac mae gan staff yr hawl i atafaelu unrhyw wrthrych a allai achosi niwed.

#### **Rheoli Eitemau Contraband:**

- Hysbysir pob disgybl am yr eitemau gwaharddedig yn ystod eu cyfnod sefydlu.
- Gellir cynnal gwiriadau rheolaidd a pharchus (yn unol â chanllawiau diogelu) i sicrhau diogelwch pob disgybl a staff.
- Os canfyddir eitem waharddedig, caiff ei hatafael ar unwaith. Bydd eitemau peryglus neu anghyfreithlon yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdodau priodol, a bydd teuluoedd yn cael eu hysbysu.
- Bydd y sefyllfa'n cael ei datrys drwy sgysiau adferol a chanlyniadau priodol

Os oes angen, bydd staff yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar chwilio am ddisgyblion.

#### **Hyfforddiant Staff ar Arferion Cyfyngedig**

- Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi mewn technegau dad-ddwysáu a dulliau sy'n seiliedig ar drawma.
- Mae staff sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio ymyrraeth gorfforol yn derbyn hyfforddiant arbenigol, fel TeamTeach.
- Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn sicrhau bod staff wedi'u cyfarparu i reoli ymddygiad heriol gyda'r ddibyniaeth leiaf ar arferion cyfyngedig.

#### **Monitro a Gwerthuso**

Caiff gweithrediad y polisi hwn ei fonitro drwy:

- Adolygiad rheolaidd o ddiwyddiadau a phatrymau ymddygiad, gan gynnwys defnyddio arferion cyfyngedig.
- Adborth gan ddisgyblion a staff ar effeithiolrwydd strategaethau.
- Diweddariadau i Asesiadau Risg ac arferion adferol yn seiliedig ar ganlyniadau

#### **Cymeradwywyd y polisi hwn gan y Pwyllgor Rheoli**

Llofnod: ... *Swice* ... Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli

Dyddiad: .....9fed Gorffennaf 2025.....

Llofnod: .....J. Parkinson..... Pennaeth y Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion

Dyddiad: .....9fed Gorffennaf 2025.....



## Ffurflen Digwyddiad Difrifol Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion Sir Fynwy

### Rhestr Wirio Digwyddiadau Difrifol

- cysylltwyd ag aelod o'r Uwch Dîm Arwain
- hysbysu rhieni/gofalwyr/gweithiwr cymdeithasol
- wedi'i gofnodi ar MyConcern
- copi o'r ffurflen hon wedi'i e-bostio i...
- lle mae ymyrraeth gorfforol wedi digwydd, llyfr wedi'i rymo a'i rifo wedi'i gwblhau
- lle bo angen, ffurflen Trais yn y Gwaith i'w chwblhau
- Cynllun Cymorth Bugeiliol, Asesiad Risg, Cynllun Addysg personol - wedi'i ddiweddarau os oes angen

|                                                                                                                                                                                                                                     |  |                                |  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--------------------------------|--|
| <b>Enw'r disgybl</b><br><br><b>Nodyn:</b> os yw disgyblion eraill wedi bod yn rhan o ddigwyddiad, ni ellir eu henwi (na defnyddio llythrennau cyntaf) ar y ffurflen hon. Bydd angen cwblhau ffurflen ar wahân ar gyfer pob disgybl. |  | <b>Grŵp<br/>blwyd<br/>-dyn</b> |  |
| <b>Dyddiad:</b>                                                                                                                                                                                                                     |  |                                |  |
| <b>Adroddiad wedi'i gwblhau gan:</b>                                                                                                                                                                                                |  |                                |  |
| <b>Staff eraill yn bresennol:</b>                                                                                                                                                                                                   |  |                                |  |

|                                                |
|------------------------------------------------|
| <b>Lleoliad y digwyddiad/safle/darpariaeth</b> |
|                                                |

|                           |
|---------------------------|
| <b>Amser y Digwyddiad</b> |
|---------------------------|

|           |  |       |  |       |  |            |  |             |  |
|-----------|--|-------|--|-------|--|------------|--|-------------|--|
| Cyn Ysgol |  | Egwyl |  | Cinio |  | Mewn gwers |  | Ar ôl ysgol |  |
|-----------|--|-------|--|-------|--|------------|--|-------------|--|

| Diwrnod y Digwyddiad |  |        |  |         |  |     |  |        |  |
|----------------------|--|--------|--|---------|--|-----|--|--------|--|
| Llun                 |  | Mawrth |  | Mercher |  | Iau |  | Gwener |  |

| Sbardun                         |  |                          |  |                                                                     |  |                            |  |                       |  |
|---------------------------------|--|--------------------------|--|---------------------------------------------------------------------|--|----------------------------|--|-----------------------|--|
| Tynnu sylw neu bryderon gartref |  | Anghytundeb â chyfoedion |  | Heb gael caniatâd i wneud rhywbeth/cael eich gofyn i wneud rhywbeth |  | Teimlo'n sâl/poen          |  | Blinedig/diff yg cwsg |  |
| Newyn                           |  | Sŵn                      |  | Eraill yn eu gofod personol                                         |  | Teimlo'n cael eich cyhuddo |  | Chwantau/ Caethiwed   |  |
| Ymddygiad pobl eraill           |  | Pwysau gan Gyfoedion     |  | Newid staff                                                         |  | Newid trefn arferol        |  | Problemau trafndiaeth |  |
| Arall                           |  |                          |  |                                                                     |  |                            |  |                       |  |

| Disgrifiad o'r digwyddiad                       |  |                                   |  |
|-------------------------------------------------|--|-----------------------------------|--|
|                                                 |  |                                   |  |
| Dad-ddwysáu’r sefyllfa/ymyriadau a ddefnyddiwyd |  |                                   |  |
| Dull llais tawel                                |  | Cynigiwyd sicrwydd                |  |
| Anwybyddu wedi'i gynllunio                      |  | Cynigiwyd dewisiadau eraill       |  |
| Tynnu sylw                                      |  | Newid wyneb                       |  |
| Ailadrodd yr ymddygiad dymunol                  |  | Cyffyrddiad/llaw arweiniol amodol |  |
| Hiwmor                                          |  | Dysgu Tîm                         |  |

|                                                                     |         |         |
|---------------------------------------------------------------------|---------|---------|
| Camau a gymerwyd yn dilyn y digwyddiad                              |         |         |
| Cyfarfod/sgwrs gyda rhieni/gofalwyr:                                |         |         |
|                                                                     |         |         |
| Sgwrs adferol/ymateb disgyblion:                                    |         |         |
|                                                                     |         |         |
| Gwersi a ddysgwyd? Rhowch fanylion                                  |         |         |
| Cynllun Trin Cadarnhaol/asesiad risg wedi'i ddiweddarau?            |         |         |
| Oes/Na                                                              |         |         |
| Manylion                                                            |         |         |
| PSP wedi'i ddiweddarau                                              |         |         |
| Ie/Na                                                               |         |         |
| Manylion                                                            |         |         |
| Ffurflen damwain/trais yn y gwaith wedi'i chwblhau? Rhowch fanylion |         |         |
| Crynodeb cymorth cyntaf. Rhowch fanylion                            |         |         |
| Trafodwyd gydag aelod o'r Uwch Dîm Arwain (enw)                     | Llofnod | Dyddiad |
|                                                                     |         |         |